Swydd: Golygydd Cynnwys / Dylunydd Cyfarwyddiadol

Lleoliad: Llanelli / Caernarfon / Y Cartref

Cyflog: I'w drafod yn ddibynnol ar profiad

Mae hon yn rôl bwysig a chyffrous sy'n dod ag amrywiaeth eang o weithio ar gynnwys dysgu, hyd at brosiectau arloesol a phroffil uchel.

Rydym yn chwilio am olygydd cynnwys / dylunydd cyfarwyddiadol (Instructional Designer) i ymuno â'n tîm sydd ar y cynnydd, yn un o asiantaethau digidol mwyaf cyffrous ac amrywiol Cymru. Swydd aml-fedrus sy'n gyfrifol am bob agwedd ar gynnwys. Byddwch angen dylunio a datblygu profiadau dysgu ac ymarfer, yn ogystal â golygu cynnwys i wella gwerth ein deunyddiau a gwefannau ysgrifenedig. Yn dibynnu ar y prosiect, bydd gofyn i chi weithio gydag arbenigwyr cynnwys a fideo mewnol yn ogystal â arbenigwyr cynnwys a chyfieithwyr allanol ar gyfer pynciau arbenigol. Mae'r mwyafrif o brosiectau yn ddwyieithog neu'n amlieithog ac yn amrywio o ran graddfa o gynulleidfaoedd lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol.

Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau

- Prawf ddarllen, ailstrwythuro a golygu cynnwys gan awduron yn y Gymraeg a Saesneg
- Cyfieithu cynnwys rhwng y Gymraeg a Saesneg ble nad yw'n pwnc arbenigol
- Creu gweithgareddau rhyngweithiol deniadol a chynnwys cymhellol sy'n gwella'r dysgu
- Gweithio gydag arbenigwyr pwnc a nodi anghenion y gynulleidfa darged
- Delweddu graffeg gyfarwyddiadol, y rhyngwyneb defnyddiwr, a'r deunydd gorffenedig
- Cymhwyso damcaniaethau, ymarferion a dulliau dylunio cyfarwyddiadau wedi'u profi
- Darparu ymarferion a gweithgareddau sy'n gwella'r broses ddysgu
- Diweddaru gwefannau a thudalennau cyfryngau cymdeithasol gyda chynnwys newydd

Sgiliau ofynnol

- Siaradwr Saesneg a Chymraeg rhugl
- Y gallu i ysgrifennu'n gywir ac yn rhugl yn Saesneg a Chymraeg i safon ramadegol uchel
- Yn gallu prawf ddarllen a chywiro testun Saesneg a Chymraeg
- Llygad barcud am fanylion a chysondeb
- Y gallu i addasu cynnwys yn dibynnu ar y gynulleidfa / pwnc targed

Profiad dymunol

- Gwybodaeth am feddalwedd datblygu cwrs Articulate Storyline / Rise
- Defnydd o InDesign
- Cyfarwyddo sesiynau recordio troslais yn unol â'r naws a'r neges
- Profiad cyfryngau cymdeithasol
- Gwybodaeth am Systemau Rheoli Dysgu (LMS)
- Gweithio mewn amgylchedd asiantaeth (llu o brosiectau a chleientiaid)

- Gweithio gyda chleientiaid y sector preifat a’r sector cyhoeddus

Anfonwch eich CV i wneud cais, neu os hoffech ragor o wybodaeth, e-bostiwch swyddi@tinint.com